**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Mehefin 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, S. Harris, A. S. Johnson, B. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Diprwy Glerc y Dref

## 14. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

## 15. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr B. Blakeley (ymrwymiad arall), Mrs J. Chamberlain-Jones (yn sâl), Ms J. Hughes (yn sâl), Miss E. L. Jones (ymrwymiad gwaith), K. R. Jones (ymrwymiad gwaith), Mrs P. M. Jones (yn sâl) ac A. J. Rutherford (ar wyliau).

## 16. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod Blynyddol y Cyngor | - | 17eg Mai 2017 | - | Rhifau Cofnod 1-13 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 14eg Mehefin 2017 | - | Rhifau Cofnod 1-3 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 14eg Mehefin 2017 | - | Rhifau Cofnod 1-27 |

Adroddodd Clerc y Dref bod y Cynghorydd A. J. Rutherford wedi ei gofnodi fel Is-gadeirydd y pwyllgor mewn camgymeriad.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James bod ei henw hi wedi ei ychwanegu mewn camgymeriad i'r Is-bwyllgor Iaith Gymraeg.

Yn amodol ar y diwygiadau uchod, cynigiwyd y cofnodion gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 17. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr amrywiol ddigwyddiadau a fynychodd yn ystod y mis a aeth heibio.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 18. AWDURODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B, rhestr o daliadau anrheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod.

Temlai Aelod y dylai fod lwfans blynyddol tebyg fod ar gael i'r holl Gynghorwyr i gynorthwyo gyd threuliau y byddant yn eu wynebu gydol eu gwasanaeth.

Dywedodd Clerc y Dref bod lwfansau Cynghorwyr yn cael eu harolygu bob blwyddyn yn unol â phenderfyniadau a gymerwyd gan Banel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol Cymru, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Mesurau Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Byddai'r arolwg nesaf yn digwydd tua mis Medi eleni i'r Aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'u llofnodi gan y Cynghorydd P. Prendergast a'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James.*

*(a) Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (Ebril 2017)*

| Enw Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaethau a Ddarparwyd | Rhif Taleb | Dull Talu | Swm £ |
|---|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd A. R. James | Lwfans y Maer 2017/18 taliad 1 o 3 | | Trosglwyddiad Banc | 997.50 |
| Y Cynghorydd P. Prendergast | Lwfans Dirprwy Faer 2017/18 taliad 1 o 3 | | Trosglwyddiad Banc | 332.50 |
| **Cyfanswm ar gyfer Atodlen B** | | | | **£1,330.00** |

## 19. EITEMAU ER GWYBODAETH

Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau i ymateb i ebostiau swyddogion a gwahoddiadau i alluogi cymryd penderfyniadau yn brydlon a gwneud trefniadau ar gyfer digwyddiadau dinesig.

Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau hefyd i gadarnhau eu presenoldeb yn y sesiynau Côd Ymddygiad a adroddwyd eisoes a dywedodd nad oedd angen i Aelodau'r Cyngor Sir a oedd eisoes wedi mynychu'r sesiwn fynychu eilwaith fel Cynghorwyr Tref.

Dosbarthodd Clerc y Dref daflenni ar gyfer Sioe Awyr eleni a'r Wyl Gerdd 70au ac 80au i'r Aelodau.

**20. HOLI AC ATEB**

Holodd Mr David Moragan, gweithiwr cangen UNSAIN leol:

(i) Os oedd penderfyniad wedi ei gymryd ar ddarparu teledu cylch cyfyng yn y Rhyl ac os oedd, beth oedd sefyllfa’r Cyngor Tref?

(ii) Mewn perthynas â’r effaith ar swyddi lleol a’r diffyg ymgynghori gydag UNSAIN, a oedd y Cyngor Tref yn bryderus?

Dywedodd Clerc y Dref bod y Cyngor Tref wedi ei gynrychioli ar Bartneriaeth Teledu Cylch Cyfyng Sir Ddinbych a sefydlwyd ar 1af Ebrill 2016 i sicrhau parhad y ddarpariaeth, i ddechrau am 12 mis. Roedd hyn wedi ei ymestyn am 12 mis arall ac roedd y bartneriaeth ers hynny wedi cymryd y penderfyniad i adleoli monitro delweddau teledu cylch cyfyng y tu allan i’r Rhyl. Ni fyddai hyn yn gostwng lefel y ddarpariaeth.

Roedd penderfyniad arall ynglŷn ag ariannu teledu cylch cyfyng yn y Rhyl i'r dyfodol a chyfraniad y Cyngor Tref i’w gymryd yng nghyfarfod heno.

Adroddodd Clerc y Dref bod gan Gyngor Sir Ddinbych gyfrifoldeb am y gweithwyr fel y partner arweiniol, ac awgrymodd bod Mr Morgan yn cysylltu â nhw mewn perthynas â’r elfen benodol honno.

Gofynnodd Clerc y Dref i Mr Morgan ebostio unrhyw gwestiynau ychwanegol i’r Cyngor Tref i’w alluogi i ddarparu ymateb manylach pe byddai hynny’n ddefnyddiol?

Dywedodd Mr Morgan y byddai UNSAIN yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych yn uniongyrchol ac y byddai’n ebostio’r Cyngor Tref gydag unrhyw gwestiynau pellach.

**21. GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**22. CYTUNDEB TELEDU CYLCH CYFYNG**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) ar ôl cais gan Fwrdd Partneriaeth Teledu Cylch Cyfyng Sir Ddinbych i’r Cyngor Tref ystyried ymestyn ei gymorth ariannol am y saith blynedd nesaf, pe byddai ei gais am grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu adleoli’r gwasanaeth i Gyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer ac adnewyddu’r gweinydd a oedd bellach yn hen a ddim yn addas i’r pwrpas, yn aflwyddiannus.

***PENDERFYNWYD*** *pe byddai’r cais am gyllid i Lywodraeth Cymru yn cael ei wrthod, bod y Cyngor Tref yn cytuno’n unfrydol y bydd ei gyfraniad blynyddol o £15,000 yn cael ei ymestyn am y saith blynedd nesaf.*

23. **EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**24. TERFNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:…………..……………..

Dyddiad: ……………….…………..